# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 8fed GORFFENNAF 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cad), Gareth Jones, Harry Owen- Talysarn, Dafydd Thomas - Nebo, Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Justin Davies, Erfyl Williams - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts – Llanllyfni.

**Ymddiheuriadau** -Judith Humphreys - Penygroes, Nigel Williams - Talysarn, Tesni Glyn - Llanllyfni, Gerallt Hughes - Nantlle, Cyng. Peter Thomas.

2. **Datgan buddiant** - pwynt 11 Siân Dafydd - Ceisiadau cynllunio.

3. **Gwadd - Mark Gahan, Cyngor Gwynedd** - yn anffodus Mark yn methu bod yn bresennol. Felly gohirio tan rywdro eto.

4. **Cofnodion cyfarfod 10 Mehefin 2025** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **CCTV Penygroes -** PCSO Siwan Humphreys wedi cysylltu i ddweud ei bod bellach wedi gwneud yr archwiliad ac yn gofyn am gyfarfod i drafod y mater ymhellach. Y clerc i gysylltu nôl a gofyn pryd fydd hi ar gael ac yna trefnu cyfarfod gyda phawb arall o'r sefydliadau eraill.

6. **Adroddiadau cyfarfodydd yn ystod y mis - 26 Mehefin - cyfarfod i drafod ymgeisio am Grant Cronfa Gwynedd Ni -** roedd pawb wedi derbyn e-bost gyda manylion y grant ac wedi cael amser i feddwl am syniadau ar ei gyfer. Yn y cyfarfod trafodwyd opsiynau gwahanol a chynigwyd syniad o greu murlun i roi ar y Ganolfan yn Nhalysarn gydag artist lleol a chynnal gweithdy gyda phlant yr ysgol. Cynigwyd cael gwelâu blodau yn y pentrefi er mwyn gwella edrychiad. Trafodwyd y cynigion ac eiliwyd i geisio am y grant a rhoi'r ddau syniad i mewn. Rhoddwyd hyn o flaen y pwyllgor llawn heno ac yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol gyda'r cynnig. Parhau gyda'r cais gan fod y dyddiad cau ddiwedd y mis hwn.

7. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Braf clywed bod y digwyddiad amgylcheddol ym Maes Castell Llanllyfni wedi bod yn llwyddiannus. Yn absenoldeb Cyng. Thomas diolchwyd iddo unwaith eto am ei waith i'r gymuned.

8. **Materion Pentrefi** - **Penygroes -** adroddwyd nad oedd llawer o bobl yn deall fod yna doiledau cyhoeddus yn Garej Povey, ond adroddwyd hefyd bod arwyddion newydd wedi eu rhoi allan wythnos yma gan Gyngor Gwynedd i'w rhoi fyny ar yr adeiladau. Cafwyd cynnig efallai y buasai yn syniad rhoi arwydd ar ddrws y toiledau sydd wedi cau ym maes parcio dros y ffordd i'r Co-op yn nodi lle mae'r toiledau sydd ar gael. Y golau stryd sydd ddim wedi bod yn gweithio heb gael eu trwsio a hyn angen ei gwneud ar fyrder gan na all pobl weld pan yn dywyll i fynd allan. Y llwybr o Cwtin i Co-op angen ei dorri. Palmant yn Trem Yr Wyddfa - marciau wedi eu rhoi ar y mannau sydd eisiau sylw ond dim byd wedi digwydd wedyn. Cwynion wedi ei derbyn bod yr hen safle Express Motors wedi mynd yn flêr ac angen sylw. **Llanllyfni -** y bin sbwriel ger y safle bws yn rhan uchaf y pentref wedi cael ei dynnu oddi yno - os mai'r cyngor sydd wedi mynd ag o a ydynt yn bwriadu ei roi yn nôl? Lôn Tyddyn Agnes angen ei thorri (heb gael ei gwneud llynedd chwaith). Safle'r hen Cwari wedi dechrau mynd yn flêr eto ac angen sylw. Wedi holi am gael bin sbwriel yn Nasareth er peth amser ond dal heb dderbyn un. Cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn â goryrru rhwng Llanllyfni a Penygroes. Angen cysylltu â Chyngor Gwynedd am ganlyniadau'r arolwg cyflymder a wnaed yno yn ddiweddar. **Talysarn -** y darn tir lle'r oedd y ciosg yn arfer bod heb gael ei dorri. Defaid yn rhydd o gwmpas y pentref, rhywbeth angen ei wneud i stopio hyn. **Nebo -** twll yn y ffordd rhwng Nasareth a Penchwarel ac angen sylw. Y clerc i gysylltu â'r sefydliadau pwrpasol ar gyfer y materion hyn.

9. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. Dim byd yn codi. Angen trefnu i gynnal is-bwyllgor cyllid yn fuan ar ôl ein cyfarfod llawn nesaf ym mis Medi. Edrychwyd ar y rhestr asedau a nodwyd bod angen tynnu'r ystafelloedd newid oddi arno. Newid ffigwr gwerth y safleoedd bysiau cerrig i £15,000. Newid nifer meinciau mynwentydd i 2 a chodi'r ffigwr i £700. Y clerc i newid hwn ar y rhestr asedau ac ail-edrych eto mis Medi.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - adrodd bod sbwriel dal yn cael ei adael ym mynwent Macpela. Trafodwyd a gofynnwyd a oes posib newid maint y bin sydd yno rŵan neu efallai ei gael wedi ei wagio yn amlach? Cynnig i ofyn i'w gael wedi ei wagio yn wythnosol yn hytrach na pob bythefnos. Cynnig i gael bin brown gwastraff gardd yno yn ychwanegol ond parhau a'u gwagio bob bythefnos. Gofyn a oes cosb os ydynt yn rhoi'r sbwriel anghywir yn y bin brown? Cynnig i'r clerc ofyn am y gwahanol opsiynau hyn a mynd gyda'r rhataf o ran costau ac ail-edrych ar y sefyllfa eto ar ôl i hyn gymryd lle. Eiliwyd y cynnig hwn.

11. **Ceisiadau Cynllunio** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod am y drafodaeth hon.
- C25/0131/22/DT – tir ger Gloddfa Glai Talysarn – newid defnydd i ymestyn cwrtil yr eiddo – cytuno ar yr amod na fydd gwaith adeiladu yn cael ei gario allan ar y safle.
- C25/0452/22/DT – Ael Y Bryn, 133 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni – estyniad llawr cyntaf – dim gwrthwynebiad
- C25/0478/22/DT – 86 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – porth blaen newydd ynghyd a dormer to fflat yn y cefn – dim gwrthwynebiad.

12. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Nid oedd dim yn codi.

13. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.
- *Antur Nantlle – adnewyddu enw parth gwefan am 2 flynedd =* ***£36.00 (cynnwys TAW)***
- *Stocksings - arwydd goryrru Nantlle =* ***£3919.42 (cynnwys TAW)***

14. **Unrhyw fater arall** - Cwtin (bu i Justin Davies adael y cyfarfod am y drafodaeth hon) - adrodd bod Steff y contractwr torri gwair wedi bod yn torri cae cwtin yn derbyn cwyn ei fod wedi gordyfu.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 9 Medi 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________